**Y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit, Senedd yr Alban, 26 Mawrth 2018**
**Datganiad ar y cyd:**

"Heddiw, fe wnaethom ni gadeiryddion, cynullyddion a chynrychiolwyr y pwyllgorau sy'n craffu ar faterion sy'n ymwneud â Brexit yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, gyfarfod yn Nhŷ'r Arglwyddi ar gyfer ail gyfarfod y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit, i ystyried y trafodaethau sy'n parhau i fynd rhagddynt ynghylch y modd y bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac i drafod ein gwaith o gyd-graffu ar y broses honno. Roedd swyddogion o Gynulliad Gogledd Iwerddon yn bresennol fel sylwedyddion.

Cyn heddiw, mae cyfarfodydd y Fforwm Rhyngseneddol wedi tueddu i ganolbwyntio ar hynt Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Heddiw, cawsom gyfarfod â Fiona Hyslop MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Materion Allanol i drafod safbwynt Llywodraeth yr Alban ar y Bil yn ogystal â'r broses ehangach o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Cawsom gyfle hefyd i ystyried sut y bydd y berthynas rhwng llywodraethau'r DU yn gweithredu yn y tymor hir a goblygiadau Brexit yn y cyswllt hwn. Rydym yn cydnabod nad yw'r system bresennol ar gyfer hybu cysylltiadau rhwng llywodraethau'r DU yn addas i'r diben a bod angen dybryd i'w diwygio'n sylweddol yng nghyd-destun Brexit. Bydd y broses hon hefyd yn her sylweddol o ran y modd y bydd holl ddeddfwrfeydd y DU i graffu ar y prosesau hyn. Un agwedd bwysig ar y trafodaethau oedd yr angen i'r seneddau gwahanol gydweithio ar Brexit yn y dyfodol.

Bydd y Fforwm yn cyfarfod eto ganol mis Mehefin 2018, pan fyddwn yn adolygu hynt trafodaethau Brexit a goblygiadau Brexit o ran y setliadau datganoli yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

**Tŷ'r Cyffredin**

Bernard Jenkin AS, Cadeirydd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol
Liz Saville Roberts AS, Pwyllgor Materion Cymreig a Gogledd Iwerddon

**Tŷ'r Arglwyddi**

Yr Arglwydd Beith, Pwyllgor y Cyfansoddiad
Yr Arglwydd Blencathra, Cadeirydd y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol
Yr Arglwydd Dunlop, Pwyllgor y Cyfansoddiad
Yr Arglwydd Kirkwood, y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth
Yr Arglwydd McFall, Uwch Ddirprwy Llefarydd
Yr Arglwydd Whitty, Pwyllgor Dethol yr UE

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**Senedd yr Alban**

Claire Baker MSP, Dirprwy Gynullydd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Chysylltiadau Allanol
Bruce Crawford MSP, Cynullydd y Pwyllgor Cyllid a’r Cyfansoddiad
Joan McAlpine MSP, Dirprwy Gynullydd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Chysylltiadau Allanol
Stuart McMillan MSP, Dirprwy Gynullydd y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith
Graham Simpson MSP, Cynullydd y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith Senedd yr Alban